# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cygor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 5ED MAWRTH, 2018**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor,**

**Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 23 Chwefror 2018)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Steve Collings
Dafydd Owen
Rheinallt Puw
Elfed Williams
Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Peter Read
Annwen Daniels

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Jason Wayne Parry
Angela Russell
Eryl Jones-Williams
Dewi Wyn Roberts

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorwyr

Gareth Williams

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorwyr
Sion W. Jones

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11.12.17 fel rhai cywir .

**5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** 7 - 10

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 12.01.2018

**6. MANYLEB MESURYDDION CERBYDAU HACNI** 11 - 13

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Amgylchedd

**7. ADOLYGU POLISÏAU TACSI CYNGOR GWYNEDD**

I dderbyn diweddariad ar lafar ar yr adolygiad

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 11.12.17**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Steve Collings, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Roberts, Elfed W. Williams a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Annwen Daniels, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Sion Jones a Jason W Parry,

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 11eg o Fedi 2017 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 22.8.17 a 13.11.17

**6. GWEITHREDU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 – TACSIS HYGYRCH AR GYFER CADEIRIAU OLWYN**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Adran yr Amgylchedd yn cynghori'r Aelodau ar yr elfennau hynny o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sydd yn weithredol ers Ebrill 2017. Adroddwyd bod adrannau 165, 166 a 167, sydd yn berthnasol i gerbydau sydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, yn ei gwneud hi yn ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu benderfynu os ydynt yn dymuno cyhoeddi rhestr o gerbydau sydd wedi eu dynodi fel rhai hygyrch. Y bwriad yw sicrhau bod gwell gwybodaeth ar gael i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn am y cerbydau hynny sydd yn addas ar eu cyfer, yn eu hardaloedd, ac iddynt fod yn hyderus y byddant yn derbyn cymorth angenrheidiol i deithio'n ddiogel.

Ategwyd bod Adran 167 o'r Ddeddf yn rhoi caniatâd i'r Awdurdodau gynnal rhestr ddynodedig o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn. Er nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol na gofyn statudol i gynnal rhestr o'r fath, nodwyd bod y llywodraeth yn awgrymu'n gryf y dylai Awdurdodau Lleol gadw'r rhestr yn gywir a chyfredol. Cyfeiriwyd at ganllawiau statudol y mae'r Adran Drafnidiaeth wedi eu pennu ynghylch gweithredu'r adrannau ynghyd ag argymell pa brosesau y dylai'r Awdurdodau Lleol eu hystyried i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Adroddwyd bod 53 o gerbydau trwyddedig fyddai yn cael eu dynodi fel rhai sydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn yng Ngwynedd (13% o gyfanswm y Sir). Nodwyd y byddai cyhoeddi rhestr yn ffordd o annog cynnydd mewn ceisiadau am drwydded cerbydau o'r fath ac yn anogaeth i gwmnïau sylweddoli bod gwerth economaidd posib i gynnwys cerbyd hygyrch fel rhan o'u fflyd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Y byddai rhestr yn gosod fframwaith i ddarpariaeth Cyngor Gwynedd
- Yn ganllaw da i hyrwyddo gwasanaeth
- Bod posibilrwydd i gydweithio a rhannu'r rhestr gydag ysbytai'r Sir
- Delfrydol y dylai pob cerbyd hacni fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac y dylai hyn fod yn weledigaeth i'r dyfodol
- Bod angen cyflwyno cyfundrefn newydd yn raddol i annog defnydd o geir amlbwrpas – angen i'r Cyngor fod yn arloesol
- Cwmnïau llai yn debygol o fuddsoddi petai pwysau yn dod gan y cyhoedd
- Bod her i'r Adran gadw'r rhestr yn gyfredol

**PENDERFYNWYD cymeradwyo:**

a) **gweithredu gofynion adrannau 165, 166 a 167 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

**b) bod y swyddogion yn paratoi polisi, i'w ystyried gan y pwyllgor, ar y meini prawf ar gyfer eithriadau a'r gweithdrefnau ar gyfer gyrwyr na allent gydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir yn y Ddeddf am resymau meddygol neu gorfforol.**

**c) bod y darpariaethau polisi ar gyfer rhoi'r gweithdrefnau hyn ar waith yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad o bolisïau tacsis sydd ar y gweill ar hyn o bryd; a'u cynnwys yn y polisi tacsis unedig fydd yn barod i ymgynghori arno yn fuan.**

## 7. ADOLYGU POLISÏAU TACSI CYNGOR GWYNEDD

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu ar y broses o adolygu holl bolisïau tacsis Cyngor Gwynedd gan atgoffa'r Aelodau mai'r bwriad oedd cyflwyno <u>un</u> polisi unedol fydd yn cynnwys penderfyniad y Pwyllgor i weithredu adrannau 165, 166 a 167 o'r Ddeddf Cydraddoldeb. Adroddwyd bod James Button (JB) (Cyfreithiwr arbenigol yn y maes trwyddedu) hefyd yn cynnal adolygiad cenedlaethol i atgyfnerthu a gwella'r polisi collfarnau. Ategwyd bod Cyngor Gwynedd yn croesawu'r gwaith yma ac yn gwerthfawrogi unrhyw welliant / diweddariad, gan fod y Cyngor yn gwneud defnydd helaeth o'r polisi wrth ystyried ceisiadau trwydded hacni / gyrrwr tacsi. Adroddwyd y byddai adolygiad JB yn debygol o fod

wedi ei gwblhau erbyn Ebrill 2018 ac y bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cynnwys ym mholisi unedol Gwynedd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Croesawu'r angen i resymoli a chysoni'r polisïau ar gyfer y 3 ardal yng Ngwynedd
- Angen sicrhau polisi collfarnau cyffredinol i bawb - ar hyn o bryd y polisïau yn cael eu camddehongli sydd yn gwneud rhai sefyllfaoedd yn anodd
- Angen sicrhau bod yr addasiadau / newidiadau yn cael eu gweithredu gyda'i gilydd - un addasiad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag amserlen cyhoeddi'r polisi unedol, amlygwyd y byddai hyn yn ddibynnol ar sicrhau bod yr holl elfennau yn barod ynghyd a chynnal ymgynghoriad ffurfiol, swyddogol. Ategwyd mai’r elfennau fydd yn gyrru’r amserlen, ond gobeithiol y byddai’r polisi unedol yn weithredol erbyn Mehefin 2018.

**DERBYNIWYD y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.50am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 12.01.2018

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Steve Collings a Dafydd Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

   Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

   Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau. Amlygodd ei fod yn hoff iawn o ddreifio ac wedi bod yn dreifio lorïau ers 35 mlynedd. Nododd ei fod wedi cael cynnig swydd dreifio tacsi gyda chwmni lleol. Nid oedd

wedi ystyried dod a chynrychiolydd gydag ef i'r gwrandawiad. Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Bod y gollfarn (a dderbyniwyd gan Lys Ynadon Porthmadog - Gorffennaf 1982) am ddefnyddio iaith neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus yn groes i adran 5 o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1936, yn ogystal ag ymosodiad 'ABH' yn groes i adran 47 o Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861. Derbyniodd yr ymgeisydd ddirwy o £100 a gorchymyn i dalu costau o £3 am y drosedd trefn gyhoeddus, ac ar gyfer y drosedd ABH cafodd ddirwy o £100. Tynnwyd sylw nad oedd ganddo gollfarn arall ar gyfer troseddau o natur dreisgar.

Ystyriwyd paragraff 6.5 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r y byddai cais fel rheol yn cael ei wrthod pan fydd gan yr ymgeisydd un gollfarn am ABH sydd yn llai na 3 mlwydd oed. Gyda'r gollfarn wedi digwydd dros 35 o flynyddoedd yn ôl, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon nad oedd y gollfarn yn sail dros wrthod y cais.

Bod y gollfarn ( a dderbyniwyd gan Lys y Goron, Yr Wyddgrug - Mawrth 2017) am gyfres o droseddau amgylcheddol (2 gyhuddiad o gadw gwastraff a reolir mewn modd tebygol o achosi llygredd neu niwed i iechyd dynol yn groes i adran 33(1)(c) o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990, a 7 cyhuddiad yn groes i reoliad 38 o'r Rheoliadau Trwyddedau Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010). Gyda'r cyhuddiad o dan Ddeddf 1990, cafodd yr ymgeisydd ei ddedfrydu i 6 mis o garchar; ar gyfer yr ail gyhuddiad o dan yr un ddeddf cafodd ei ddedfrydu i 4 mis o garchar (yn rhedeg yn gyfochrog) ac un cyhuddiad o dan Reoliadau 2010 derbyniodd 6 mis o ddedfryd carchar (eto, yn rhedeg yn gyfochrog). Ni dderbyniwyd cosb ar wahân am y cyhuddiadau eraill o dan Ddeddf 2010.

Er nad oedd y gollfarn yn ymddangos yn berthnasol i unrhyw un o'r categorïau o drosedd sy'n cael eu cyfarch yn benodol gan y Polisi (troseddau treisgar, rhywiol, anonestrwydd, cyffuriau, troseddau gyrru ayyb), fe ystyriodd yr Is-bwyllgor bod y cais yn disgyn o dan baragraff 17 - torri deddfwriaeth yn gyffredinol. Nodir y paragraff y byddai'n annhebygol rhoi trwydded i ymgeisydd sydd â chollfarn am dorri deddfwriaeth oni bai bod cyfnod o 12 mis o leiaf wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar.

Wedi ystyried sylwadau'r ymgeisydd bod y gollfarn yn ymwneud â thoriadau yn ymestyn dros gyfnod o 2014 i Awst 2016 lle'r oedd cyfnod o 16 mis wedi mynd heibio ers dyddiad y toriad mwyaf diweddar, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod hyn tu allan i'r cyfnod gwahardd. Yn ogystal, gydag eglurhad gonest am fethiant ei fusnes o gydymffurfio gyda gofynion trwyddedu, a arweiniodd at y gollfarn ym Mawrth 2017, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon nad oedd y gollfarn yn achos o roi elw o flaen diogelwch a bod yr ymgeisydd wedi ymddwyn yn gyfrifol tuag at ei staff wrth geisio cadw'r busnes yn hyfyw cyn hired ag yr oedd modd.

Gyda'r Is-bwyllgor hefyd wedi ystyried bod gan yr ymgeisydd brofiad blaenorol o yrru fel bywoliaeth - bod yn yrrwr yn y RAF rhwng 1979 a 1983 ac yn dal trwydded lori dosbarth 1 ers 35 mlynedd, penderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Trwyddedu yn cadarnhau trefniant y drwydded.

## 6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Ms B

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Ms B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau. Amlygodd bod y troseddau wedi digwydd yn ystod ei harddegau a'i bod bellach yn fam i dri o blant ac yn ceisio'r gorau iddynt. Ategwyd ei bod wedi ysgrifennu llythyrau yn ymddiheuro i bawb oedd wedi eu heffeithio gan ei hymddygiad yn Ionawr 2004. Nododd ei bod wedi cael cynnig swydd rhan amser yn gyrru tacsi ar gyfer cludo plant, yr henoed a'r anabl. Ei dymuniad oedd cynorthwyo a chynnig gwasanaeth i'r cyhoedd. Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon - Chwefror 2004 am gyfres o droseddau a ddigwyddodd Ionawr 2004, o gymryd cerbyd modur heb ganiatâd a dau gyhuddiad o ladrad. O ganlyniad, derbyniodd yr ymgeisydd orchymyn cyfeirio (*referral order*) 11 mis a gorchymyn i dalu costau o £25.00. Nid oedd gan yr ymgeisydd unrhyw euogfarnau eraill.

Ystyriwyd paragraff 8.2 o'r Polisi, lle nodi’r y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os yw euogfarn am ladrad yn llai na 3 mlwydd oed. Gyda’r gollfarn wedi digwydd dros 13 o flynyddoedd yn ôl, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon nad oedd y gollfarn yn sail dros wrthod y cais. Roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn ystyried rhan 12 a 13 o'r Polisi mewn perthynas â'r drosedd o gymryd heb ganiatâd. Canfu'r Is-bwyllgor bod y drosedd yn gyfystyr â man drosedd gyrru, ac ni ddylai fod yn sail i wrthod y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd gyda manylion am ei hawl i gyflwyno apêl.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:55am a daeth i ben am 12:20pm

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 5 MAWRTH 2018 |
| TEITL: | MANYLEB MESURYDDION CERBYDAU HACNI |
| PWRPAS: | CYMERADWYO ADOLYGIAD YR AMODAU TRWYDDEDU O RAN GOSOD A DEFNYDDIO CLOCIAU/MESURYDD TACSI |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

## 1.0 CEFNDIR A DATBLYGIADAU DIWEDDAR

1.1 Y Cyngor yw'r awdurdod trwyddedu i gerbydau hacni drwy rinwedd darpariaethau Deddf Cymalau Heddlu Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Mae'r awdurdod yn gosod amodau trwyddedu ac mae'n rhaid cydymffurfio â'r rhain i ganiatáu trwydded cerbyd.

1.2 Mae is-ddeddfau cerbydau hacni Cyngor Gwynedd a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gofyn fod cloc tacsi (Taxi Meter) wedi ei osod i bob cerbyd hacni.

1.3 Dyfeisiadau yw clociau tacsi i gofrestru pris taith ar sail cyfuniad o'r pellter a deithiwyd a'r amser aros. Mae clociau tacsi yn bennaf yn ddyfeisiadau electronig cyfrifiadurol sy'n mesur y pellter gan ddefnyddio trawsatebwr (transponder) i drosi symudiad cerbyd i'r pellter a deithiwyd gan arddangos y pris diweddaraf i'r siwrne, gan ddangos faint mae'r hurio yn ei gostio. Yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am osod yr uchafswm pris y gall gyrrwr cerbyd hacni ei godi am unrhyw daith yng Nghyngor Gwynedd, ac mae'n rhaid gosod y cloc tacsi yn unol â hyn. Rhaid i gerbydau hacni fod â chloc tacsi a dylid ei ddefnyddio pan fo teithiwr yn hurio'r cerbyd.

1.4 Mae manteision i ddefnyddio'r cloc tacsi i'r gyrrwr ac i'r teithiwr. Mae pris y siwrne yn cael ei arddangos yn glir i'r teithiwr ac nid oes angen i'r gyrrwr gyfrif y tâl ei hun. Felly, bydd y pris a godir yn dryloyw ac yn glir ac o gymorth i leihau unrhyw anghydfod. Mae aelodau o'r cyhoedd yn dibynnu ar gerbydau trwyddedig i'w cludo drwy Wynedd, ac felly mae'n bwysig eu bod yn gallu dibynnu ar gywirdeb cloc tacsi sydd wedi'i osod.

1.5 Mae Adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn rhoi pŵer i unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu unrhyw gwnstabl i archwilio a phrofi, i ddibenion gweld os yw'n addas, unrhyw gloc tacsi a osodwyd mewn cerbyd hacni.

1.6 Daeth Rheoliadau Offer Mesur (Clociau Tacsi) 2006 i rym ar 30ain Hydref 2006.
Mae’r rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb Offer Mesur (MID) yr UE mewn perthynas â chlociau tacsi. Rhaid i'r holl glociau tacsi gydymffurfio gyda'r rheoliadau a chael eu cymeradwyo gan gorff penodol a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hi yn drosedd dan Reoliad 4(2) i roi ar y farchnad, ac i ddefnyddio, cloc tacsi nad yw yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau ac sydd heb ei Awdurdodi gan gorff penodol; (cyrff penodol yw'r rhain bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel personau/mudiadau sy'n cwrdd â meini prawf corff penodol).

1.7 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd yn y defnydd o Systemau Lleoli Byd-eang (GPS) i fesur tâl mewn cerbydau trwyddedig. Mae'r system yma'n cynnwys system anfon ganolog mewn swyddfa sydd wedi ei chysylltu gyda therfynell data symudol yn y cerbyd sy'n defnyddio'r GPS. Mae'r derfynell data symudol yn debyg i derfynell llywio lloeren, ond mae hefyd yn cynnwys cloc tacsi.

1.8 Defnyddir systemau GPS gan weithredwyr i reoli ac anfon cerbydau at gwsmeriaid a gellir hefyd eu defnyddio i gyfrif pris siwrne. Mae ychydig o gwmnïau lleol wedi dechrau defnyddio dyfeisiadau o'r fath yn hytrach na'r clociau tacsi cymeradwy; ac mae'r sefyllfa gyfreithiol o ran defnyddio systemau o'r fath wedi ei hystyried. Er ein bod yn croesawu technoleg newydd, nid oes unrhyw system GPS ar hyn o bryd yn cydymffurfio gyda gofynion Rheoliadau Offer Mesur (Clociau Tacsi) 2006, ac felly ni ellir eu defnyddio fel cloc tacsi cymeradwy.

## 2. AMODAU PRESENNOL

Mae'r amodau presennol o ran clociau tacsi wedi eu geirio fel a ganlyn -

*Bydd gan gerbyd hacni bob amser gloc tacsi a bydd pob mesurydd yn cydymffurfio â’r gofynion a ganlyn:-*

*(a) Bydd goriad, fflag neu ddyfais arall yn cael ei osod ar y cloc tacsi, a bydd troi hwn yn galluogi i'r cloc tacsi weithio a pheri i'r gair "HIRED" ymddangos ar wyneb y cloc tacsi.*
*(b) Bydd modd cloi’r goriad, fflag neu’r ddyfais i'w lle er mwyn i beirianwaith y cloc tacsi roi'r gorau i weithredu, fel nad yw cost y daith yn cael ei gofnodi ar wyneb y cloc tacsi.*
*(c) Pan fo peirianwaith y cloc tacsi yn gweithio, bydd wyneb y cloc yn dangos mewn ffigyrau eglur, cost y daith, fydd ddim yn uwch na’r prisiau y mae’r awdurdod hwn wedi'u pennu ac fel y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ysgrifenedig i’r gweithredwr.*
*(d) Bydd y gair “FARE” yn cael ei brintio ar wyneb y cloc tacsi mewn llythrennau eglur i ddangos yn glir mai dyma yw cost y daith.*
*(e) Bydd y cloc tacsi yn cael ei osod mewn lle fel bod yr holl lythrennau a ffigurau arno’n hawdd i’w gweld i unrhyw berson yn y cerbyd trwyddedig, ac felly hefyd, bydd modd goleuo’r llythrennau a’r ffigurau yn briodol pan fo’r cerbyd yn cael ei hurio.*
*(f) Bydd y cloc tacsi ac unrhyw ddarnau ategol yn cael eu gosod yn y cerbyd trwyddedig a byddant yn cael eu selio wrth eu gosod i sicrhau na fydd modd i unrhyw un chwarae â hwy, heb dorri, difrodi neu dynnu’r sêl oddi yno’n barhaol. Bydd y cloc yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob taith. Ni fydd cost y daith yn uwch na’r hyn a ddengys y cloc.*
*(g) Mae’n rhaid i’r cloc tacsi gael ei gadw mewn cyflwr gweithio boddhaol gan ei gyflwyno i gael ei archwilio mewn lleoliad penodol gan swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu gan Gwnstabl pe bai rhybudd yn gofyn am hynny dan Adran 68 y Ddeddf neu i gydymffurfio ag Amod 9 uchod.*

## 3. AMODAU ARFAETHEDIG

3.1 Ar hyn o bryd nid oes angen i gerbydau hacni yng Ngwynedd i gael eu cloc tacsi wedi ei brofi yn gyfnodol.

Cynigir bod yr amod isod yn cael ei fewnosod i'r rhan sy'n manylu am y mesurydd a'r offer yn yr amodau cerbydau hacni.

*3.2 "Rhaid i bob cerbyd hacni fod â chloc tacsi wedi ei osod sydd o ddyluniad a cymeradwy, wedi ei selio'n briodol a'i brofi ac mae'n rhaid cadw clociau tacsi o'r fath mewn cyflwr da ac yn gweithio'n briodol gan fod yn weladwy a chlir i'r holl deithwyr heb effeithio ar gyfforddusrwydd teithiwr na amharu ar reoliadau adeiladwaith na defnydd.*

*3.3 Bydd gofyn i berchnogion cerbydau ddarparu tystysgrif wrth wneud cais cyntaf am drwydded cerbyd i gadarnhau bod y cloc tacsi o fanyldeb a gymeradwywyd ac wedi'i osod yn unol â Rheoliadau Offer Mesur (Clociau Tacsi) 2006.*

*3.4 Bydd y mesurydd a osodir wedi ei galibradu i gynnwys dim ond tariff Cyngor Gwynedd sy'n gymwys i nifer y teithwyr a ganiateir yn y cerbyd hwnnw.*
*Bydd y perchennog yn dangos tystysgrif yn flynyddol i'r Awdurdod Trwyddedu a gyflwynir gan y gosodwr cloc tacsi/archwilydd a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tacsi, sy'n nodi fod y mesurydd yn gywir ac ond yn cynnwys tariff cerbydau hacni cyfredol Cyngor Gwynedd."*

3.5 Bydd yr amodau arfaethedig newydd yma yn darparu proses gref i sicrhau bod clociau tacsi wedi eu gosod ar y tariff cywir, yn helpu i gadw ymddiriedaeth y cyhoedd fod y pris a godir ar y cloc yn gywir.

3.6 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.4, bwriedir i berchnogion cerbydau ddangos tystysgrif yn flynyddol i ddangos fod y cloc tacsi yn gywir ac ond yn cynnwys tariff cerbydau hacni Cyngor Gwynedd.

3.7 Cynigir felly fod yr uned drwyddedu yn sefydlu rhestr o brofwyr clociau tacsi cymeradwy i osod ac i gynnal profion blynyddol. Cyfrifoldeb perchnogion y cerbydau fydd talu am osod a gwirio pob cloc tacsi yn flynyddol.

3.8 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.3, rhaid i bob cloc tacsi gydymffurfio gyda'r gofynion a amlinellwyd yn Rheoliadau Offer Mesur (Clociau Tacsi) 2006. Nid oes unrhyw systemau GPS ar y farchnad ar hyn o bryd sy'n cydymffurfio gyda'r rheoliadau hyn.

3.9 Y bwriad yw ychwanegu amod at amodau trwydded cerbyd hacni i egluro statws cyfreithiol presennol systemau GPS i reoli ac anfon tacsi.

Gweler yr amod arfaethedig isod

*"Gellid gosod system GPS i reoli ac anfon tacsi sy'n cynnwys pen data symudol a system anfon ganolog yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.*
*Nid yw'r system GPS yn gloc tacsi. Gellir ei defnyddio gyda chloc tacsi cymeradwy'r cerbyd ond ni ddylai gymryd ei le."*

3.10 Bydd angen ymgynghori gyda'r diwydiant am hyn, a gwneir hyn fel rhan o waith ymgynghori ehangach ar adolygiad polisïau trwyddedu tacsi.

**4. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

4.1 Bydd y gwaith profi clociau tacsi yn flynyddol yn cael ei ymgymryd â'i dalu gan y busnes, ac ni fydd yn cynyddu'r baich ariannol ar berchnogion tacsi sy'n cydymffurfio yn llawn gyda'r amodau cyfredol o ran clociau tacsi.

**5. ARGYMHELLION:**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i newid yr amodau o ran clociau tacsi fel rhan o adolygiad ehangach polisiau ac amodau trwyddedu tacsi sydd wrthi'n cael ei gynnal.